



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Ymchwiliad i wrthsemitiaeth yn y Blaid Lafur

—
Crynodeb gweithredol
Hydref 2020

Crynodeb gweithredol

Cefndir

Ar 28 Mai 2019, fe wnaethom lansio ymchwiliad i'r Blaid Lafur, yn dilyn pryder difrifol y cyhoedd am honiadau o wrthsemitiaeth a nifer o gwynion ffurfiol a wnaed i ni.

Fe wnaethom gynnal yr ymchwiliad yma gan ddefnyddio ein pwerau statudol yn Neddf Cydraddoldeb 2006.

Nod yr ymchwiliad oedd penderfynu a dramgwyddodd y Blaid Lafur Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mewn perthynas ag ethnigrwydd Iddewig neu Iddewiaeth, yn erbyn ei haelodau, ei swyddogion cyswllt neu ei gwesteion, drwy weithredoedd ei chyflogeion neu ei hasiantau. Gwnaethom ni hefyd ymchwilio i'r camau a gymerwyd gan y Blaid i weithredu argymhellion adroddiadau blaenorol, a ph'un a oedd y Blaid yn ymdrin â chwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth yn gyfreithlon, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Edrychwyd ar ystod eang o dystiolaeth gan y Blaid Lafur, y Jewish Labour Movement (JLM), y Campaign Against Antisemitism (CAA), Jewish Voice for Labour, nifer o chwythwyr chwiban ac unigolion a sefydliadau eraill.

Cynhaliwyd dadansoddiad manwl o sampl o 70 o ffeiliau ymchwilio i gŵyn. Dewiswyd 58 o'r ffeiliau hyn allan o fwy na 220 o gwynion a nodwyd mewn gwahanol ffynonellau. Cafodd y 12 arall eu cyflwyno gan y Blaid Lafur.

Wedi i'r Blaid Lafur gyflwyno ei thystiolaeth derfynol i ni, cafodd adroddiad 850-tudalen, sef 'The work of the Labour Party's Governance and Legal Unit in relation to antisemitism, 2014-2019' ei ddatgelu i'r wasg ar 12 Ebrill 2020. Ni chawsom wybod fod yr adroddiad hwn yn cael ei baratoi, ac nid yw hyd yma wedi'i gyhoeddi. Nid oedd yn gymesur inni ei gwneud yn ofynnol i'r Blaid Lafur ddarparu'r dystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad.

Rydym wedi ystyried yr adroddiad a ddatgelwyd ac wedi'i ystyried lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, yr ydym wedi gwneud hynny gan gofio nad ydym wedi gweld yr holl dystiolaeth y seiliwyd y casgliadau yn yr adroddiad a ddatgelwyd arni.

Gwrthsemitiaeth yn y Blaid Lafur

Mae ein hymchwiliad wedi nodi methiannau difrifol mewn arweinyddiaeth a phroses annigonol ar gyfer ymdrin â chwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth ar draws y Blaid Lafur, ac yr ydym wedi darganfod nifer o fethiannau yn y systemau y mae'n eu defnyddio i'w datrys. Daethom i'r casgliad bod gweithredoedd anghyfreithlon o aflonyddu a gwahaniaethu wedi digwydd y mae'r Blaid Lafur yn gyfrifol amdanynt.

Er y bu rhai gwelliannau diweddar yn y ffordd y mae'r Blaid Lafur yn delio â chwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth, mae ein dadansoddiad yn cyfeirio at ddiwylliant o fewn y Blaid nad oedd, ar ei orau, yn gwneud digon i atal gwrthsemitiaeth. Ar ei waethaf, gellid gweld bod gwrthsemitiaeth yn cael ei dderbyn.

Mae mater gwrthsemitiaeth o fewn y Blaid Lafur wedi bod yn destun llawer o graffu, yn fwyaf ffurfiol mewn tri ymchwiliad yn 2016, a gynhaliwyd gan y Farwnes Chakrabarti, y Farwnes Royall a'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref (HASC). Ers hynny, mae'r Blaid wedi methu â gweithredu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau hyn yn llawn, na chymryd camau effeithiol i atal achosion o ymddygiad gwrthsemitig. Mae'n drueni bod llawer o'r pryderon a godwn yma wedi'u codi gyntaf yn yr adroddiadau hyn dros bedair blynedd yn ôl.

Mae hyn yn adlewyrchu diwylliant sy'n groes i ymrwymiad y Blaid Lafur i ddim goddefgarwch tuag at wrthsemitiaeth.¹ Mae'r Blaid wedi dangos y gallu i weithredu'n bendant pan fydd yn dymuno gwneud hynny, drwy gyflwyno proses bwrpasol i ddelio â chwynion ynglŷn ag aflonyddu rhywiol. Er bod y broses ar gyfer ymdrin â chwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth wedi gwella rhywfaint, mae'n anodd peidio â chasglu y gellid bod wedi mynd i'r afael â gwrthsemitiaeth o fewn y Blaid Lafur yn fwy effeithiol pe bai'r arweinyddiaeth wedi dewis gwneud hynny.

¹ Mae yr ymrwymiad hwn wedi bodoli ers 2016. Gwnaeth Tom Watson AS, a oedd yn Ddirprwy Arweinydd ar y pryd, yr ymrwymiad ym mis Ebrill 2016. Ers hynny ailddatganwyd hyn yn 2018 gan Jeremy Corbyn AS, sef Arweinydd y Blaid Lafur ar y pryd. Dywedodd Syr Keir Starmer AS, Arweinydd cyfredol y Blaid Lafur: 'Mae egwyddor yr hyn yr wyf am ei gyflawni yn glir: os ydych yn wrthsemitig, ni allwch ac ni ddylech fod yn y Blaid Lafur. Yn ddieithriad' (gweler [Evening Standard, 7 Ebrill 2020, 'Keir Starmer: I apologise to the Jewish community – rebuilding your trust starts now'](#)).

Mae'r broses gwyno ynglŷn â gwrthsemitiaeth yn faes sy'n peri pryder arbennig, yn enwedig o ystyried y ffocws ar hyn mewn ymchwiliadau blaenorol i wrthsemitiaeth. Dros bedair blynedd ar ôl yr ymchwiliadau hyn, roeddem yn disgwyl gweld dogfennau polisi clir, hygyrch a chynhwysfawr i lywio'r broses gwyno, ond dangosodd y dystiolaeth nad oedd y rhain yn bodoli. Gwelsom nad oedd gan y broses gwyno adnoddau priodol ac nad oedd y rhai a oedd yn gyfrifol amdani wedi'u hyfforddi i'r safon angenrheidiol.

Gwelsom dystiolaeth o nifer sylweddol o gwynion yn ymwneud â gwrthsemitiaeth na fuont yn destun ymchwiliad o gwbl; mae hyn yn arbennig o wir am gwynion am weithgarwch cyfryngau cymdeithasol lle mabwysiadodd y Blaid Lafur yn flaenorol bolisi o beidio ag ymchwilio i fân weithgarwch megis 'likes' neu ail-bostiadau. Lle cynhaliwyd ymchwiliad i fater, roedd y canllawiau ar y sancsiynau priodol yn aneglur ac yn anghyson.

Gwelsom dystiolaeth o ymyrraeth wleidyddol wrth ymdrin â chwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth gydol cyfnod yr ymchwiliad. Rydym wedi dod i'r casgliad bod yr arfer hwn o ymyrraeth wleidyddol yn anghyfreithlon. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod staff Swyddfa Arweinydd yr Wrthblaid (LOTO) wedi gallu dylanwadu ar benderfyniadau ar gwynion, yn enwedig penderfyniadau ynghylch atal rhywun ai peidio. Weithiau gwnaed y penderfyniadau hyn oherwydd diddordeb tebygol y wasg yn hytrach nag unrhyw feini prawf ffurfiol clir.

Rydym yn nodi ein prif ganfyddiadau a'n hargymhellion ar gyfer newid isod. Lle bu gwelliannau yn y broses ymdrin â chwynion nodir y rhain drwy gydol yr adroddiad, yn enwedig ym mhenodau 4, 6, 7, 8 a 9.

Rhaid i'r Blaid Lafur yn awr lunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'n canfyddiadau a'n hargymhellion. Mae'r arweinyddiaeth newydd o dan Syr Keir Starmer eisoes wedi ymrwmo'n gyhoeddus i weithredu ein hargymhellion yn llawn. Rhaid i'r Blaid roi hyn ar waith yn awr. Mae'r argymhellion yn glir, yn deg ac yn gyraeddadwy. Byddant yn helpu'r Blaid Lafur sicrhau newid cadarnhaol yn ei pholisïau, ei phrosesau a'i diwylliant, er budd ei holl aelodau, ac i ailadeiladu ymddiriedaeth ymhlith y gymuned Iddewig a'r cyhoedd yn ehangach. Rhaid gwneud hyn mewn ffordd ragweithiol ac amserol. Rhaid peidio â bod mewn sefyllfa lle bydd yn rhaid llunio'r argymhellion hyn o'r newydd mewn adroddiad arall eto yn y dyfodol.

Ein canfyddiadau

Gweithredoedd anghyfreithlon

Canfu ein hymchwiliad fod y Blaid Lafur wedi torri Deddf Cydraddoldeb 2010 drwy aflonyddu'n anghyfreithlon drwy weithredoedd ei hasiantau mewn dwy o'r cwynion yr ymchwiliwyd iddynt. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio ystrydebau gwrthsemitig ac awgrymu bod cwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth yn ffug neu'n ymgais i bardduo rhywun.

Gan fod y bobl hyn yn gweithredu fel asiantau'r Blaid Lafur, y Blaid Lafur oedd yn gyfreithiol gyfrifol am eu hymddygiad.

Nid dyma hyd a lled y materion rydym wedi'u nodi yn y ffeiliau sampl o bell ffordd; dim ond arwyddion cynnil o'r broblem enfawr dan yr wyneb oedd y rhain. Gwelsom hefyd:

- 18 achos 'ffiniol' arall. Yn yr achosion hyn, nid oedd digon o dystiolaeth i ddod i'r casgliad mai'r Blaid Lafur oedd yn gyfreithiol gyfrifol am ymddygiad yr unigolyn. Pobl fel cynghorwyr lleol, ymgeiswyr etholiad lleol a deiliaid swyddi'r Blaid Lafur Etholaethol oedd y rhain.
- Mewn llawer mwy o ffeiliau, roedd tystiolaeth o ymddygiad gwrthsemitig gan aelod 'cyffredin' o'r Blaid Lafur. Nid oedd gan yr aelodau hyn unrhyw swydd na rôl, felly ni ellid honni bod y Blaid Lafur yn uniongyrchol gyfrifol am eu hymddygiad o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Yng ngoleuni ein sefyllfa fel rheoleiddwyr, dim ond mewn achosion a oedd yn ddigon clir yng nghyd-destun Deddf Cydraddoldeb 2010 a Thelerau Hawliau Dynol 1998 gwnaethom nodi bod yr ymddygiad yn anghyfreithlon. Rydym yn egluro hyn ym Mhennod 3.

Os yw'r Blaid Lafur wedi ymrwymo mewn gwirionedd i adeiladu diwylliant o ddim goddefgarwch tuag at wrthsemitiaeth, yna rhaid iddi ei gwneud yn glir na fydd yn goddef ymddygiad gwrthsemitig gan ei haelodau. Dylai hefyd ymdrin yn effeithiol ag ymddygiad o'r fath gan ei haelodau pryd bynnag y bydd hyn yn digwydd, p'un a yw'n gyfreithiol gyfrifol amdano ai peidio.

Fel yr eglurwn isod, gwelsom hefyd fod y Blaid Lafur wedi torri Deddf Cydraddoldeb 2010 drwy weithredoedd oedd yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol o ran ymyrraeth wleidyddol a thrwy beidio â chynnig hyfforddiant digonol.

Ymyrraeth wleidyddol

Drwy gydol y cyfnod y buom yn chwilio i'r mater, gwelsom ymyrraeth wleidyddol wrth ymdrin â chwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth – fel rhan o arfer ehangach trwy gynnwys Arweinydd yr Wrthblaid mewn achosion disgyblu yr ystyriwyd eu bod yn 'wleidyddol sensitif', yn ogystal ag arfer penodol ym mis Mawrth–Ebrill 2018, pan gyfeiriwyd pob achos o wrthsemitiaeth at Arweinydd yr Wrthblaid. Yn y sampl o 70 o ffeiliau cwynion, gwelsom 23 achos o ymyrraeth wleidyddol gan staff Arweinydd yr Wrthblaid ac eraill. Mae'r rhain yn cynnwys enghreifftiau clir o ymyrraeth ar wahanol adegau drwy gydol y broses ymdrin â chwynion, gan gynnwys wrth benderfynu p'un a ddylid ymchwilio ai peidio, a ph'un a ddylid gwahardd pobl ai peidio.

Gwelsom nad oedd yr ymyrraeth wleidyddol hon yn rhan o broses gwyno ffurfiol y Blaid Lafur, felly nid oedd yn ddull dilys o benderfynu ar gwynion

Daethom i'r casgliad bod hyn yn wahaniaethu anuniongyrchol ac yn anghyfreithlon, a bod y Blaid Lafur yn gyfreithiol gyfrifol amdano.

Mae'r arfer hwn wedi creu diffyg tryloywder a chysondeb yn y broses gwyno a risg ddifrifol o driniaeth wahaniaethol wirioneddol neu ganfyddedig mewn cwynion penodol. Mae hefyd wedi tanseilio hyder y cyhoedd yn sylfaenol yn y broses gwyno.

Y broses gwyno

Mae proses gwyno effeithiol a thryloyw yn hanfodol i feithrin ymddiriedaeth gydag aelodau a'r cyhoedd, ac eto mae ymateb y Blaid Lafur i gwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth wedi bod yn anghyson, yn wael, ac yn ddiffygiol o ran tryloywder. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n llwyr ag ymateb y Blaid i gwynion ynglŷn ag aflonyddu rhywiol, sy'n cynnwys polisi a gweithdrefn glir, canllawiau i achwynwyr ynghylch beth yw aflonyddu rhywiol, mynediad at wasanaeth cynghori arbenigol annibynnol a phorth pwrpasol ar gyfer gwneud cwyn.

Gwelsom:

- dim polisi na gweithdrefn glir, hygyrch a chynhwysfawr i'r cyhoedd i esbonio sut y penderfynir ar gwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth
- polisi ac arfer aneglur, anghyson ac annigonol ar gyfer hysbysu'r achwynwyr o'r newyddion diweddaraf mewn achosion o gwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth a rhoi gwybod iddynt am ganlyniad eu cwyn
- cymhwyso gwaharddiadau gweinyddol yn anghyson
- diffyg proses glir a theg i ymatebwyr

- dim canllawiau clir i'r Pwyllgor Gweithredol Cenedlaethol (NEC) a'r Pwyllgor Cyfansoddiadol Cenedlaethol (NCC) ar sut i benderfynu ar gwynion
- penderfyniadau aneglur gan y NEC a'r NCC
- defnydd amhriodol o gyfathrebu anffurfiol yn y broses gwyno
- diffyg gweithredu ac oedi ar lawer o gwynion, a
- cadw cofnodion gwael: roedd hyn yn amlwg mewn 62 o'r 70 ffeil yn ein sampl.

Sanctsiynau

Mewn achosion lle cymeradwywyd cwyn ynglŷn â gwrthsemitiaeth, bu'n anodd llunio casgliadau ar degwch a chysonder y sanctsiynau a ddefnyddiwyd. Mae hyn yn rhannol o leiaf oherwydd y methiannau a nodwyd yn y broses gwyno, gan gynnwys methiant i gyhoeddi polisi clir ar sut y caiff ymddygiad gwrthsemitig ei gosbi, methiant i ddarparu rhesymau digonol dros benderfyniadau, a safon wael o gadw cofnodion.

Er bod y Blaid wedi cyflwyno diwygiadau yn ddiweddar, sy'n gwella gallu paneli NEC a NCC i benderfynu ar achosion a diarddel aelodau'n brydlon pan fo'n briodol, mae problemau'n parhau. Yn benodol:

- does dim canllawiau clir, cyhoeddus a hygyrch i aelodau ar sut y caiff ymddygiad gwrthsemitig ei gosbi
- does dim canllawiau clir i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar sut i benderfynu ar y sanctsiwn priodol
- methiant parhaus i roi rhesymau digonol dros sanctsiynau, a
- arferion gwael wrth gadw cofnodion, gweithredu a monitro sanctsiynau.

Rydym yn parhau i fod yn bryderus nad yw'r broses bresennol yn sicrhau bod cwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth yn cael eu cosbi'n deg ac yn dryloyw, ac nad yw hi'n rhoi ar waith argymhellion adroddiadau blaenorol.

Hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer cwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth

Argymhellodd adroddiadau blaenorol ar wrthsemitiaeth yn y Blaid Lafur y dylai fuddsoddi mewn hyfforddiant i'r rhai sy'n ymwneud â'r broses ymdrin â chwynion.

Er gwaethaf cydnabyddiaeth y Blaid bod angen hyfforddiant digonol, methwyd â'i ddarparu i'r unigolion sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion gwrthsemitiaeth. Mae'r dull o hyfforddi ar gyfer gwrthsemitiaeth yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r hyfforddiant a ddarperir i'r rhai sy'n ymdrin â chwynion ynglŷn ag aflonyddu rhywiol. Mae'r Blaid Lafur wedi rhoi cynllun hyfforddi cynhwysfawr ar waith ar gyfer y rhain. Mae'r methiant hwn i ddarparu hyfforddiant digonol i'r rhai sy'n ymdrin â chwynion gwrthsemitiaeth yn cyfrannu at ddiffyg ymddiriedaeth a hyder yn y system ymdrin â chwynion. Gwelwn fod y methiant hwn yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn aelodau Iddewig o'r Blaid Lafur.

O fis Medi 2019, mae'r Blaid Lafur wedi darparu cwrs addysgol am wrthsemitiaeth i'r rhai sy'n ymwneud â thrin a phenderfynu ar gwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth, ond bu methiant parhaus i ddarparu hyfforddiant ymarferol digonol iddynt.

Nid ydym wedi nodi bod hyn yn anghyfreithlon ar hyn o bryd. Y rheswm am hyn yw ymrwymiad ffurfiol y Blaid Lafur yn ei sylwadau i'r ymchwiliad fis Awst 2020, i gyflwyno hyfforddiant priodol i'r rhai sy'n ymdrin â chwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth, sy'n dderbyniol i randdeiliaid y gymuned Iddewig. Rydym yn cydnabod na all wneud hynny'n ymarferol cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, sy'n golygu bod cyfiawnhad ar hyn o bryd dros fethu â darparu hyfforddiant ymarferol. Fodd bynnag, disgwyliwn i'r Blaid Lafur drefnu i roi hyfforddiant ymarferol ar waith o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Gwelsom hefyd fod adnoddau'r broses gwyno yn annigonol. Nodwyd y thema hon yn adroddiadau Chakrabarti a Royall. Argymhellodd adroddiad Royall y dylai'r weithdrefn gwyno genedlaethol gael adnoddau priodol fel y gall [y Blaid Lafur] ddelio'n effeithiol â chwynion am wrthsemitiaeth', yn ogystal â phenodi cwnsler cyffredinol neu gyfreithwyr staff eraill, a staff arbenigol sydd wedi'u hyfforddi a'u cyfarparu i weithio ar faterion disgyblu.

Er gwaethaf yr argymhellion clir hyn, ni wnaeth y Blaid Lafur gymryd camau i weithredu'r newidiadau hyn tan 2018.

Er y bu camau diweddar i roi gwell adnoddau i'r broses ymdrin â chwynion, mae'r cynnydd wedi bod yn araf ac mae mwy i'w wneud o hyd.

Polisi cyfryngau cymdeithasol

Y cyfryngau cymdeithasol oedd ffynhonnell y rhan fwyaf o'r cwynion am ymddygiad gwrthsemitig: o'r 70 o gwynion yr ymchwiliwyd iddynt, roedd 59 yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn dangos pa mor hanfodol yw mynd i'r afael â'r math hwn o ymddygiad gwrthsemitig.

Yr oedd gan y Blaid Lafur bolisi, er mai anghyson oedd ei defnydd ohono, o beidio ag ymchwilio i gwynion am 'likes' gwrthsemitig neu 'rannu' cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, pan oedd y sawl y cwynwyd amdano wedi 'hoffi' neu 'rannu' cynnwys heb iddo wneud sylwadau amdano, waeth beth oedd y cyddestun penodol. Yr oedd hyn yn gwbl groes i ymrwymiad y Blaid Lafur i ddim goddefgarwch tuag at wrthsemitiaeth. Oherwydd hyn, mae'n bosibl y methwyd ag ymchwilio i achosion o rannu deunydd gwrthsemitig dro ar ôl tro, hyd yn oed lle gallai hynny fod wedi torri rheol ymddygiad y Blaid neu aflonyddu neu wahaniaethu anghyfreithlon.

Mae'r Blaid Lafur bellach wedi cydnabod bod ei pholisi'n anghywir a dywedodd wrthym nad yw wedi'i defnyddio ers canol 2018. Mae hefyd wedi cadarnhau ei bod wedi ailagor rhai cwynion yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol nad oeddent yn destun ymchwiliad o dan y polisi, a'i bod bellach yn mynd ati'n fwy rhagweithiol i ymchwilio i gwynion am ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn ystyried hyn yn hanfodol.

Ein hargymhellion ar gyfer newid

Rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol i osgoi ailadrodd neu barhau â'r gweithredoedd anghyfreithlon a welsom. Disgwyliwn weld yr argymhellion hyn yn cael eu gweithredu gan y Blaid Lafur mewn cynllun gweithredu. Mae rhai o'r argymhellion wedi'u targedu at un neu fwy o'r gweithredoedd anghyfreithlon yr ydym wedi'u canfod, a'u nod yw atal parhad a / neu ailadrodd y gweithredoedd hynny. Fodd bynnag, credwn hefyd fod angen newidiadau sylweddol i ddiwylliant a phrosesau'r Blaid, ac y dylid eu gweithredu er mwyn osgoi ailadrodd y gweithredoedd anghyfreithlon. Mae argymhellion i'r perwyl hynny hefyd yn ymddangos isod.

Cyflawni'r ymrwymiad i ddim goddefgarwch

Rhaid i'r Blaid Lafur gyflawni ei hymrwymiad i fod yn blaid wleidyddol heb ddim goddefgarwch tuag at wrthsemitiaeth. Er mwyn gwneud hyn dylai'r Blaid Lafur:

- Barhau i adeiladu ar ddatganiad ei harweinyddiaeth newydd ynglŷn â'i methiant i ddelio â gwrthsemitiaeth, a chydabod ei chyfrifoldeb am beidio â cyflawni ei hymrwymiad i ddim goddefgarwch tuag at wrthsemitiaeth.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid Iddewig i ddatblygu a sefydlu egwyddorion ac arferion clir, hygrych a chadarn i fynd i'r afael â gwrthsemitiaeth ac i feithrin hyder ar gyfer y dyfodol.

- Sicrhau bod ganddi system a diwylliant sy'n annog aelodau i herio ymddygiad amhriodol ac adrodd am gwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth.

Ailadeiladu ymddiriedaeth a hyder wrth ymdrin â chwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth

Rhaid i'r Blaid Lafur ailadeiladu ymddiriedaeth a hyder bod cwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth yn cael eu trin yn annibynnol, yn gyfreithlon, yn effeithlon ac yn effeithiol. Er mwyn gwneud hyn dylai'r Blaid Lafur:

- Yn unol â'i hymrwymiad, a chyn gynted ag y bydd newidiadau i reolau'n caniatáu, gomisiynu proses annibynnol i drin a phennu canlyniadau cwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth. Dylai hyn barhau nes bod ymddiriedaeth a hyder yn y broses yn cael eu hadfer yn llawn a dylai sicrhau bod goruchwyliaeth ac archwilio annibynnol yn cael eu hymgorffori'n barhaol yn y broses newydd.
- Cydnabod, drwy ei harweinyddiaeth, yr effaith y mae ymyrraeth wleidyddol wedi'i chael ar ymdrin â chwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth, a rhoi rheolau a chanllawiau clir ar waith i wahardd a chosbi ymyrraeth wleidyddol yn y broses gwyno.
- Cyhoeddi polisi a gweithdrefn gynhwysfawr, sy'n nodi sut yr ymdrinnir â chwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth a sut y gwneir penderfyniadau arnynt. Dylai hyn gynnwys meini prawf cyhoeddedig ar ba ymddygiad fydd yn destun ymchwiliad ac ataliad a'r hyn a gaiff ei ystyried yn sancsiwn priodol ar gyfer gwahanol fathau o ymddygiad gwrthsemitig profedig.
- Datblygu a gweithredu canllawiau mewrol cynhwysfawr ar gyfer pob cam o'r broses gwyno ynglŷn â gwrthsemitiaeth, ar:
 - feini prawf gwneud penderfyniadau
 - cadw cofnodion cadarn, gan gynnwys cofnodi rhesymau dros benderfyniadau
 - amserlenni, a
 - cyfathrebu, gan gynnwys cyfathrebu rheolaidd ag achwynwyr a rheolau clir sy'n rheoleiddio'r defnydd o ddulliau cyfathrebu anffurfiol yn y broses gwyno.
- Adolygu a diweddarau'r 'Cod Ymddygiad: Polisi Cyfryngau Cymdeithasol', i'w gwneud yn glir y gellir ymchwilio i aelodau ac y gallent fod yn destun camau disgyblu pe byddent yn 'rhannu' neu'n 'hoffi' unrhyw gynnwys gwrthsemitig trwy'r cyfryngau cymdeithasol .
- Sicrhau bod paneli NCC yn cael cymorth rheolaidd gan gyfreithiwr allanol yn yr un modd ag y mae paneli gwrthsemitiaeth NEC yn ei gael.

- Cymryd camau i gynyddu tryloywder yn y broses ddisgyblu, fel y nodwyd gan adroddiad HASC, drwy adrodd yn rheolaidd ar y rhesymau dros y penderfyniadau canlyniad terfynol mewn cwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth, gan ystyried gofynion cyfreithiol i gyhoeddi gwybodaeth ddienw lle y bo'n briodol.
- Yn unol ag argymhelliad adroddiad Royall, sicrhau bod adnoddau priodol ar gael ar gyfer y broses o ymdrin â chwynion er mwyn iddo allu delio â chwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth yn effeithiol ac yn ddi-oed.

Addysg a hyfforddiant

Dylai'r Blaid Lafur gymryd y camau canlynol mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant:

- Comisiynu a darparu addysg a hyfforddiant ymarferol i bob unigolyn sy'n ymwneud â'r broses gwyno ynglŷn â gwrthsemitiaeth. Dylid gweithredu hyn yn llawn o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn ac, o'r dyddiad hwnnw, dylai fod yn orfodol cyn caniatáu i unrhyw unigolyn gymryd rhan yn unrhyw gam o'r broses gwyno ynglŷn â gwrthsemitiaeth.
- Sicrhau bod pob aelod y gwelwyd ei fod wedi cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthsemitig (ar wahân i'r rhai a ddiarddelwyd) yn dilyn cwrs addysgol ar adnabod a mynd i'r afael â gwrthsemitiaeth, waeth beth fo lefel y gosb a ddefnyddir.
- Cyflwyno rhaglen addysg a hyfforddiant fesul cam ynglŷn â nodi a mynd i'r afael â gwrthsemitiaeth, ar gyfer yr holl staff, swyddogion y Blaid, ac aelodau eraill mewn swyddi cyfrifol o fewn y Blaid. Nodwn ddatganiad Arweinydd y Blaid Lafur am ei uchelgais i gyflwyno hyfforddiant i holl staff y Blaid cyn gynted â phosibl.
- Datblygu pob rhaglen addysg a hyfforddiant ar wrthsemitiaeth mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid Iddewig.

Monitro a gwerthuso gwelliannau i'r broses er mwyn sicrhau newid parhaol

Er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd gwelliannau i'r broses gwyno ynglŷn â gwrthsemitiaeth dylai'r Blaid Lafur:

- Gasglu, dadansoddi a chyhoeddi data chwarterol sy'n galluogi cymhariaeth rhwng ymdrin â chwynion ynglŷn â gwrthsemitiaeth a mathau eraill o gwynion. Dylai hyn gynnwys nifer y cwynion, y canlyniad, pa gorff a wnaeth y penderfyniad (yr Uned Llywodraethu a Chyfreithiol, yr NEC neu'r NCC), y sancsiynau a ddefnyddiwyd, yr amser a gymerwyd i'w cwblhau, a faint o gwynion sy'n dal heb eu bodloni.
- Archwilio ei brosesau ymdrin â chwynion yn rheolaidd, gan gynnwys amser ymateb a chysondeb canlyniadau, gan gynnwys sancsiynau, a gwneud newidiadau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd.
- Mesur hyder staff a rhanddeiliaid yn y broses ymdrin â chwynion ac ymateb yn briodol i'r adborth.
- Rhoi trefniadau hirdymor ar waith ar gyfer goruchwyllo'r broses ymdrin â chwynion yn annibynnol, er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu monitro a'u gorfodi a bod adnoddau digonol ar waith.

Camau nesaf

Canfu ein hymchwiliad fod y Blaid Lafur wedi cyflawni gweithredoedd anghyfreithlon. Felly, rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithred anghyfreithlon i'r Blaid. Ceir copi o'r hysbysiad hwn yn Atodiad 1.

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol bellach ar y Blaid Lafur i ddrafftio cynllun gweithredu erbyn dydd Iau 10 Rhagfyr 2020 i fynd i'r afael â'r canfyddiadau a wnaethom yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â gweithred(oedd) anghyfreithlon. Dylid seilio'r cynllun gweithredu ar ein hargymhellion er mwyn osgoi gweithredoedd o'r fath yn y dyfodol.

Rhaid cytuno ar y cynllun gweithredu a nodwyd gan y Blaid Lafur gyda ni. Byddwn yn sicrhau bod y cynllun gweithredu yn cynnwys amserlenni penodol a mesurau llwyddiant i sicrhau cydymffurfiaeth â'n hargymhellion. Unwaith y byddwn wedi cytuno arno, byddwn yn parhau i'w fonitro. Os bydd y Blaid Lafur yn methu â bodloni ei hymrwymadau yn y cynllun gweithredu cyfreithiol rwyf, yna efallai y byddwn yn cymryd camau gorfodi.

[Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth am ein pwerau cyfreithiol.](#)

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael [o'n gwefan](#).

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Rydym yn croesawu'ch adborth.

I gael gwybodaeth am gyrchu ein cyhoeddiadau mewn fformat arall, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

[Dewch o hyd i'n newyddion, digwyddiadau a chyhoeddiadau diweddaraf trwy gofrestru i dderbyn ein e-gylchlythyr.](#)

EASS

Am gyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r [Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb](#), gwasanaeth rhad ac am ddim ac annibynnol.

Ffôn	0808 800 0082
Ffôn testun	0808 800 0084
Oriau agor	09:00 i 19:00 (Llun i Gwener) 10:00 i 14:00 (Sadwrn)
Post	FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

© 2020 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Hydref 2020

ISBN: 978-1-84206-831-1



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

equalityhumanrights.com

ISBN 978-1-84206-831-1